Cenn@d

RHAGFYR 25 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 200

I ble'r aeth y Nadolig?

Dyflwydd a naw mis oedd un o fy ngorwyrion, Nedw, fis Ionawr diwethaf, pan ofynnodd gwestiwn sy'n bwysig i bob un ohonom: 'Lle mae Dolig wedi mynd, Mam?' Cwestiwn call gan mai'r symbolau gweledig oedd y Dolig iddo fo: yr ymgasglu teuluol, y goeden, yr addurniadau, y goleuadau, anrhegion Siôn Corn wrth y gwely – ac erbyn canol Ionawr y cyfan wedi mynd.

Ond er mai meddylfryd plentyn nad oedd eto'n dair oedd hyn, doedd o ddim ymhell oddi wrthi wrth ofyn y cwestiwn, oedd o?

Mi holais rywbryd ddechrau'r flwyddyn yn ein Cylch Trafod beth oedd y Nadolig wedi ei olygu i'r aelodau, ac roedd y rhestr uchod, wel, ar wahân i anrhegion Siôn Corn efallai, ymhlith yr hyn a enwyd ganddyn nhw. Gwledda a chroesawu'r plant adre hefyd yn cael ei grybwyll, gan fod y Nadolig yn ŵyl y teulu. Bu canu mewn sawl plygain a mwy nag un gwasanaeth yn ystod y cyfnod yn rhan o'u profiad yn ogystal. Ond, ai rhywbeth ar y cyrion yw'r Nadolig Cristnogol erbyn hyn?

Fe gychwynnodd fel gŵyl seciwlar, gŵyl heuldro'r gaeaf yn ein rhan ni o'r byd, pan oedd pobol yn dathlu'r ffaith fod arwyddion o wanwyn yn y tir, a'r dydd byrraf wedi mynd heibio. Yna, rywbryd yn y bedwaredd ganrif, fe impiwyd arni'r dathliad o enedigaeth Crist, gan y Rhufeiniaid mae'n debyg, a phenderfynu'n derfynol ar y pumed ar hugain o Ragfyr fel dyddiad y geni, er nad oes unrhyw dystiolaeth bendant o gywirdeb y dyddiad hwnnw.

Gŵyl seciwlar felly yn troi'n ŵyl Gristnogol, a'r arferion paganaidd yn parchuso: gŵyl i lawenhau ddyfod y Baban Iesu i'r byd, gŵyl o wasanaethau mewn capeli ac eglwysi, o ailadrodd stori'r geni, ac yn y man yn ddathliad mewn ysgolion ac ar strydoedd hefyd. A sôn am strydoedd, un o'r atgofion a drysoraf oedd clywed criw ar stryd yn Osnabruck, yr Almaen, ar fin nos serog, rewllyd flynyddoedd maith yn ôl, yn canu mewn Almaeneg y garol 'Dawel Nos' ('Stille Nacht'), a hynny yn ystod yr unig Nadolig, eitha hiraethus, dreuliais i ymhell o'm gwlad fy hun.

Ni chefnodd yr ŵyl erioed yn llwyr ar ei chefndir seciwlar, ac ochr yn ochr â dathlu dyfodiad Crist yr ydym yn dal i gynnal yr elfennau traddodiadol o ddathlu trwy wledda. Ac nid newydd o'r bedwaredd ganrif ymlaen oedd y syniad o roi anrhegion chwaith, dim ond i Gristnogaeth ddatgan mai ei sylfaen oedd y Doethion yn dod ag anrhegion i'r Iesu. Do, bu'r Eglwys Gristnogol ar hyd yr amser yn gelfydd iawn yn addasu'r traddodiadau

Llun: Unsplash.com

seciwlar a rhoi iddyn nhw gefndir ac esboniad Cristnogol, ac fe'i cyhuddwyd sawl tro o fod yn euog o ddwyn y Nadolig.

Erbyn heddiw, yma yng Nghymru, gwanhau a chilio y mae'r Nadolig Cristnogol. Darfu am y cynulleidfaoedd mawr mewn eglwysi a chapeli; aeth llawer o wasanaethau mewn ysgolion yn gyngherddau, a 'chydig o ganu sydd yna ar weithiau mawr yr ŵyl, megis y Meseia ac Oratorio'r Nadolig. Yn Saesneg, aeth Christmas yn aml yn Xmas – symbol ieithyddol o dynnu'r Crist allan o'r dathlu.

Yr hyn a welwn yw masnach yn elwa i'r eitha ar y Nadolig, yn manteisio ar ein hawydd i roi a derbyn anrhegion, ac i wledda, ac yn hysbysebu eu nwyddau a cheisio'n perswadio i brynu ymhell cyn dydd yr ŵyl, yn fuan wedi gwyliau'r haf yn aml. Ac onid oes rhywbeth yn anfoesol mewn denu a llygad-dynnu pobl na allant fforddio i wario'n wirion, a'r rheini'n ymdrechu wedyn am fisoedd i dalu eu dyledion?

Yr ateb cywir i gwestiwn Nedw felly – lle'r aeth y Dolig? – yw: yn ôl at ei wreiddiau seciwlar, yn ôl yn ŵyl y gobaith am wanwyn a haf, a'r edrych ymlaen am oleuni wedi'r tywyllwch. Dim byd o'i le yn hynny. Y cyfan y medrwn ni ei wneud, debyg, yw dal yn dynn yn y traddodiad Cristnogol, a sicrhau o leia fod arlliw o'r traddodiad hwnnw'n parhau. Dyna pam y byddwn ni yma yng Nghefnddwysarn, tra gallwn, yn dal i gynnal Gwasanaeth Noswyl Nadolig, yn dal i sôn am yr ŵyl yn ein Cylch Trafod, ac yn dal i fynychu rhai plygeiniau gyda'r parti. A thrwy hyn yn dal i ddatgan, yn llawen a gobeithiol, siawns, y ganwyd i ni 'Geidwad yn Ninas Dafydd, yr hwn yw Crist yr Arglwydd'.

Elfyn Pritchard

Cyflwyno pedair medal Gee yn y Tabernacl, Caerdydd
Tudalen 2

Myfyrdod Noswyl a Dydd Nadolig
Tudalen 3

Encil Cymod
Tudalen 4

Cyflwyno pedair medal Gee yn y Tabernacl, Caerdydd

Ar Sul olaf Tachwedd cafwyd cyfle i gyflwyno pedair medal Gee yng nghapel y Tabernacl, yr Ais, Caerdydd, a hynny i Catrin Bell, Bill a Ruth Davies, ac Eirlys Pritchard Jones, fel arwydd o werthfawrogiad yr eglwys o'u gwasanaeth clodwiw. Roedd yr oedfa dan ofal y Parch. Aled Davies, gyda gweinidog yr eglwys, y Parch. Rosa Hunt, hefyd yn rhan o'r gwasanaeth. Croesawyd pawb i'r oedfa gan Rosa, a gymerodd y cyfle ar ddechrau'r oedfa i ddiolch i ddau ddiacon am dymor arbennig o wasanaeth, wrth iddynt ymddeol o'u dyletswyddau, sef Eirlys Pritchard Jones a Huw Jones. Darllenwyd cerddi wedi eu cyfansoddi ar eu cyfer gan Catrin Dafydd a Lisa Tiplady, a chyflwynwyd copi wedi'i fframio iddynt o'r cerddi hynny.

Yna, fe gafwyd gair i'r plant gan Aled yn sôn am bwysigrwydd yr ysgol Sul a'r angen i ddal ati. Dywedodd y byddai'n hoffi meddwl y byddai rhywun yn dychwelyd i'r capel ar ran y Cyngor Ysgolion Sul mewn 70 mlynedd i gyflwyno medalau iddynt hwythau fel arwydd o'u ffyddlondeb hwythau i'r ysgol Sul.

Yn y llun, o'r chwith i'r dde mae Aled Davies, Bill Davies, Eirlys Pritchard Jones, Catrin Bell, Ruth Davies, Rosa Hunt a Rheinallt Thomas

Aed ati wedyn i gyflwyno'r pedair medal, gan gydnabod a diolch am gyfraniad nodedig y pedwar oedd yn eu derbyn i fywyd a gweithgarwch yr ysgol Sul o fewn yr eglwys, ac yn hanes Bill a Ruth eu cyfraniad yn aelodau yn Eglwys Emaus, Bangor, hefyd cyn iddynt symud i Gaerdydd. Estynnwyd llongyfarchiadau calonnog i'r pedwar ohonynt ar dderbyn eu medalau, gyda chlapio'r gynulleidfa'n atseinio drwy'r capel fel arwydd o'u gwerthfawrogiad hwythau.

Braf hefyd oedd cael Llywydd Anrhydeddus y Cyngor, Mr Rheinallt Thomas, yn bresennol, a daeth yntau ymlaen i sôn am hanes y medalau a rhannu ychydig o hanes y teulu Gee. Wedi'r cyflwyno, cynhaliwyd oedfa o dan arweiniad Aled, cyn cloi gyda gair o ddiolch gan Robin Gwyndaf. Cyhoeddwyd y fendith gan y Parch. Geraint Morse, Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru.

Cofiwch fod modd enwebu ffyddloniaid i dderbyn medal; mae ar gael i bawb dros 75 oed sy'n parhau'n ffyddlon i fywyd yr ysgol Sul. Ceir mwy o wybodaeth ar wefan www.ysgolsul.com.

Lansio *Eglwys y Bobl 3 – blwyddyn C*

Ar drothwy Sul Cyntaf yr Adfent, sy'n nodi blwyddyn newydd yn y calendr eglwysig, daeth criw da ynghyd yn Athrofa Padarn Sant, Llandaf, Caerdydd, i lansio'r drydedd gyfrol mewn cyfres o dair, sef Eglwys y Bobl 3, cyfrol ar gyfer Blwyddyn C o'r Llithiadur. Mae'r gyfrol yn cynnwys myfyrdodau gwreiddiol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a'r rheini wedi eu paratoi gan fyfyrwyr yr Athrofa ac eraill.

Bellach mae'r tair cyfrol ar gael, ac yn cynnig pregeth ddwyieithog ar gyfer pob un Sul dros gyfnod o dair blynedd. Roedd y project yn ffrwyth cydweithio rhwng yr Athrofa yn Llandaf a'r Cyngor Ysgolion Sul, ac wrth lansio'r drydedd gyfrol, diolchodd Aled Davies am y cydweithio hapus ac am waith arbennig Angharad Gaylard a Manon Ceridwen James.

Cafwyd swper tri chwrs arbennig fel rhan o'r lansiad, yn ddathliad o ddiolchgarwch o gwblhau'r gyfres. Mae'r llyfrau ar gael erbyn hyn yn eich siop lyfrau Cymraeg leol, a hynny am £13.99 yr un. Ceir mwy o wybodaeth ar wefan www.ysgolsul.com

Myfyrdod Noswyl a Dydd Nadolig

Canys ganwyd i chwi heddiw Geidwad yn ninas Dafydd, yr hwn yw Crist yr Arglwydd. (Luc 2:10, BWM)

Y Gair yn y gwair yn gorwedd – a Duw
Wedi dod o'r diwedd,
Yna'r nefol orfoledd
A ddaeth gan gyhoeddi hedd.
James Nicholas

Darlleniad: Luc 1:1–20

Carolau: 'I orwedd mewn preseb'
(*Caneuon Ffydd*, 450)
'O dawel ddinas Bethlehem'
(*Caneuon Ffydd*, 451)

Myfyrdod: 'Canys ganwyd i chwi heddiw Geidwad yn ninas Dafydd'

Y nos cyn y Nadolig nid oedd drwy y tŷ
Greadur yn symud, ddim hyd yn oed pry.
Fe glirwyd y simdde o huddyg yn lân
A hongiai pob hosan yn saff wrth y tân;
Pob plentyn yn cysgu yn dawel a chlyd
A breuddwyd am Santa yn llenwi ei fryd ...
Clement Moore / addas. Gwynne Williams

Geiriau Clement Moore, 'Twas the night before Christmas', a gyfansoddwyd yn 1823, a gofiaf yn cael eu darllen weithiau inni'n blant ar noswyl Nadolig 'stalwm. Cerdd ydyw a gafodd gryn ddylanwad ar ein gogwydd seciwlar o'r ŵyl. Mae'n hyfryd, yn llawn nostalgia a chynhesrwydd rywsut, ac yn werth troi ati ar noson fel hon.

Ond heno, dylem hefyd droi ein meddyliau at ysbrydolrwydd yn hytrach na seciwlariaeth y noson sanctaidd hon. Wrth inni adfyfyrio ar ystyr noswyl y Nadolig cyntaf, a'r un sydd ger ein bron yn awr, yr ydym yn agor drws y galon i bethau nefol a daearol, gan ofyn y cwestiwn, 'Tybed beth ddigwyddodd ym Methlem y noson honno?' Os ydym am gael ateb i'r cwestiwn hwn, 'dewch inni drwy lygad ein dychymyg a chymorth yr Ysbryd Glân gael ein tywys i ganfod y gwirionedd yn yr hanesyn rhyfeddol hwn.

Dychmygwch yr angel Gabriel yn adrodd ar y trefniadau a ymddiriedwyd iddo cyn geni'r Iesu. Tybed a ddywedodd wrth yr angylion eraill am ei ymweliad â Sechareias a'r digwyddiadau'n arwain at eni Ioan Fedyddiwr? Tybed a roddodd adroddiad ar ei ymweliad â'r Forwyn Fair yn Nasareth, a'i hymateb ufudd i'r neges a gafodd? Beth am hanes ei ymweliad â Mair ac Elisabeth wrth iddynt rannu eu llawenydd o fod yn feichiog? Beth ddywedodd Gabriel wrth yr angylion am Joseff, pan ymwelodd ag ef mewn breuddwyd a'i argyhoeddi y byddai'r plentyn a'r fam yn cael eu gwarchod gan Dduw? Tybed a fu'n sôn sut roedd penderfyniad Cesar Awgwstws wedi hyrwyddo'r ffaith mai ym Methlehem Jwdea y byddai'r Iesu yn cael ei eni, yn union fel roedd y proffwyd wedi rhagfynegi?

Dychmygwch y llu nefol o gylch yr orsedd yn disgwyl am y foment honno a ddisgrifir gan yr Apostol Paul fel 'cyflawniad yr amser' (Galatiaid 4:4) er mwyn iddynt ddod i lawr o'r nef a chyhoeddi genedigaeth Mab Duw. Pwy a ŵyr na fuont yn disgwyl yn amyneddgar, gan dorri ar draws adroddiad Gabriel â chaneuon o fawl i'w Harglwydd, a'n Harglwydd ninnau. Roeddynt yn barod – yn awchu am gael mynd i gyhoeddi'r newyddion da o lawenydd mawr. Roedd y byd yn anymwybodol o'r symudiad anhygoel oedd ar fin digwydd – ond roedd y llu nefol yn crynu â disgwylgarwch anfesuradwy!

Dychmygwch ryw sgwrs rhwng y Tad a'r Mab yn y nefoedd y noson honno. Onid oes yna arlliw o hyn i'w gael yn y llythyr at yr Hebreaid, pennod 10, lle mae'r awdur yn dyfynnu o Salm 40, sydd hefyd yn cyfeirio at sgwrs o'r fath. Dydw i ddim yn gwybod pa mor ddibynadwy ydy dweud hyn, ond fe allwn ddychmygu fod rhyw drafod wedi bod. Wedi'r cyfan, roedd natur ymgnawdoliad Crist yn deillio o weithred ddwyfol, a phwrpas ei ymgnawdoliad oedd iddo gyflawni ewyllys ei Dad a'r gogoniant fyddai'n deillio o hynny. Roedd y cyfan hyn yn y pair rywsut. Does dim rhyfedd fod y nef wedi cynhyrfu cymaint wrth feddwl bod yr amser wedi dod i Grist gael ei anfon i'n plith.

Dychmygwch Mair a Joseff yn cyrraedd Bethlehem, gan ddyfal chwilio'n ofer am lety addas i eni'r plentyn. A'r cyfan a gawsant oedd oedd hen stabl flêr. Wrth gyrraedd a cheisio setlo yn y llecyn hwnnw, mae'n debyg fod Mair a Joseff yn troi'r holl bethau oedd wedi digwydd iddynt yn eu meddyliau. Ni fu hwn yn feichiogrwydd arferol, ac ni fyddai'r enedigaeth chwaith. Ganed Iesu i Fair oedd yn forwyn … ac awn ni ddim i ddadlau am hynny yma. Digon yw nodi amodau anghyffredin yr hanesyn nad oedd ond yn hysbys i'r angylion a'r anifeiliaid ar y pryd. Dyma gyflawniad yr arwydd proffwydol hynafol y byddai morwyn yn cenhedlu plentyn ac yn esgor ar fab, y byddid yn ei alw yn Emanwel – Duw gyda ni (Eseia 7:14; Mathew 1:23).

Dychmygwch ymweliad yr angylion â'r bugeiliaid wedyn – yr hen fforddolion syml a ffyddlon hyn oedd yn gwybod am y proffwydoliaethau, ac wedi paratoi eu calonnau i dderbyn y Meseia ryw ddydd. Iddynt hwy y datguddiwyd gogoniant y nefoedd. Clywsant neges Gabriel ac yna'r llu nefol yn moli Duw – a chawsant eu cyffroi i fynd i chwilio am y baban Iesu.

Ac yn olaf, dychmygwch y doethion mewn gwlad bell, yn astudio'r sêr a'r planedau yn fanwl nes iddynt weld rhyw seren newydd un noson. Do, cawsant eu dewis gan Dduw oherwydd eu dygnwch a'u diwydrwydd wrth ymchwilio i'r gwirionedd. Pan welsant y seren, gwyddent fod y Brenin wedi ei eni. A hwy, yn anad neb arall o blith y Cenhedloedd, oedd y rhai cyntaf i ddod i addoli'r Brenin Iesu. A hwy, yn anad neb arall, a ddefnyddiwyd i ddarparu rhoddion gan Dduw fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer y daith hir ac angenrheidiol i'r Aifft wrth i Mair a Joseff orfod ffoi gyda'u plentyn ifanc rhag dicter Herod.

Tybed beth ydych chi'n ei deimlo yn eich calon ar noswyl y Nadolig eleni? A ddaeth yr hen hen hanes, ddwy fil o flynyddoedd oed, yn fyw unwaith eto? A yw wedi dod yn brofiad real i chi? Credaf fod Crist yn cael ei aileni wrth inni ddod at Dduw yn ein ffordd ein hunain, yn ein hamser ein hunain ac yn ôl ein hangen ein hunain. Dyna pryd y daw'r Iesu yn 'fyw' inni, ac y daw i fyw ynom ni, chwedl llythyr Paul at y Galatiaid: "nid myfi sy'n byw, ond Crist sy'n byw ynof fi' (2:20). Trigwn mewn byd sy'n parhau i fod heb ryw lawer o le i letya'r Crist – ond beth amdani? Dychmygwch a darparwch, a diolchwch eich bod yn gallu gwneud lle yn eich calon i'r Iesu y Nadolig hwn.

Heno a thrwy'r dydd yfory, addolwch a chlodforwch yr Iesu fel y gwnaeth yr angylion. Ceisiwch ddod i'w bresenoldeb fel y gwnaeth y bugeiliaid. Coronwch Iesu yn ben ar eich bywyd. Offrymwch eich hunan, yn ddoniau ac yn ddyddiau i'w wasanaethu, yn union fel y gwnaeth y doethion gynt. Wedi'r cyfan, dymuniad penna'r Iesu yw cael bod yn Waredwr i chi, ac i mi.

Dymunaf Nadolig Llawen, dedwydd a difyr wrth i chi droi'r pethau hyn yn eich meddwl gan glosio at yr Iesu o'r newydd o bosib. A bendith Duw a fyddo arnoch un ac oll.

- **Gweddi:** 'Duw'n dod mewn baban' (Elfed ap Nefydd Roberts)

(*Treuliwch ychydig eiliadau mewn tawelwch i gofio fod Duw yn bresennol gyda ni*)

Diolch i ti, ein Tad, am ŵyl y Nadolig;
am y newyddion da o lawenydd mawr,
ac am i ti ddod i'n byd ni yn dy Fab.

Helpa ni i wrando ar neges yr angylion
o'r newydd,
ac arwain ni mewn dychymyg i Fethlehem,
'fel y gwelwn y peth a wnaethpwyd'.
Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist.

(*Yn gyntaf, gweddïwch yn ddiolchgar am ddyfodiad Iesu Grist*)

(parhad ar y dudalen nesaf)

Myfyrdod Noswyl a Dydd Nadolig
(parhad o dudalen 3)

O Dduw ein Tad,
clodforwn dy enw am i ti yn dy ras a'th gariad
ymweld â'n daear ni yn dy Fab Iesu Grist,
ac am i ti, drwy ei ddyfodiad ef
mewn gostyngeiddrwydd a symlrwydd,
ein dysgu i garu ein gilydd
ac i geisio tangnefedd ymhlith dynion.

Helpa ni y Nadolig hwn
i fynd yng nghwmni'r bugeiliaid a'r doethion
at ei breseb i ryfeddu at dy drugaredd di tuag atom,
ac i'w addoli ef a ddaeth yn Waredwr i ni.

(*Yn awr gweddïwch dros deuluoedd y ddaear*)

O Arglwydd Iesu Grist,
yr hwn a aned i deulu syml,
bendithia deuluoedd ein daear yr ŵyl hon.

Gwna inni werthfawrogi a pharchu ein gilydd bob amser.
Llanw ein cartrefi â chariad a goddefgarwch,
fel yr amlyger dy deyrnas yn ein plith.

(*Ac yna gweddïwch dros y rhai a fydd mewn angen a thlodi y Nadolig hwn*)

O Arglwydd Iesu Grist,
gwared ni rhag anghofio ynghanol ein digonedd
y rhai fydd yn dioddef y Nadolig hwn:
y cleifion a'r cystuddiol,
y tlawd a'r newynog,
yr unig a'r digartref,
y trallodus a'r hiraethus.
Yn dy diriondeb a'th dosturi cysura nhw,
a dysg i ninnau ein cyfrifoldeb tuag atynt.

(*Yn olaf, gweddïwch am dangnefedd ar y ddaear yn ein dyddiau ni*)

Helpa ni, O Arglwydd,
i wrando o'r newydd ar gân yr angylion,
ac i geisio tangnefedd yn ein byd.

Pâr i ryfeloedd, astgasedd a difrawder beidio ymhlith dynion.
Llwydda waith pawb sy'n gweithio dros heddwch a chyfiawnder,
a gwna ni oll yn un teulu dedwydd ynot ti.
Gofynnwn hyn oll er mwyn dy enw. Amen.

Jim Clarke

Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 29 Rhagfyr, am 7:30yh – Uchafbwyntiau
Nia Roberts sy'n rhannu gwledd o ganu mawl a straeon ysbrydoledig wrth i ni fwynhau rhai o uchafbwyntiau'r gyfres. Ymhlith y cyfranwyr y mae'r Prifardd John Gwilym Jones, Gareth Richards, Rowland Jones ac Anwen Edwards. A chawn berfformiad disglair gan Siwan Henderson.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 29 Rhagfyr, am 7:30yb a 2yp
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Esyllt Maelor

Oedfa Radio Cymru
Sul, 29 Rhagfyr, am 12:00yp
Cantata Cerdd Dant y Geni
Cantata'r Geni wedi ei osod ar gerdd dant gan Bethan Bryn

Encil Cymod

Bydd Cymdeithas y Cymod yn cynnal Encil yng Ngwersyll yr Urdd Pentre Ifan, Sir Benfro, yn ystod y penwythnos 17–19 Ionawr 2025.

Pwrpas yr encil hwn yw rhoi cyfle inni ymuno gyda'n gilydd mewn llecyn tawel i fyfyrio ar ein heddwch mewnol mewn byd llawn gwrthdaro.

Bydd sgyrsiau a gweithgareddau amrywiol gan arbenigwyr ym meysydd heddwch, myfyrio a hunanddatblygiad. Bydd hefyd cyfle i fwynhau taith heddychlon o amgylch gogledd Sir Benfro fydd yn cynnwys ymweliad â Charreg Waldo, un o heddychwyr enwocaf ein cenedl, a chael swper nos Sadwrn mewn tafarn leol.

Cost y penwythnos fydd £150. Bydd hyn yn cynnwys holl weithgareddau'r penwythnos, llety a phrydau bwyd (bydd cost ychwanegol am swper yn y dafarn leol).

Gallwch gofrestru i ymuno â ni drwy lenwi'r ffurflen YMA

Os oes gennych unrhyw gwestiwn am yr encil, neu os hoffech ymuno â ni ond yn teimlo nad yw eich amgylchiadau ariannol yn caniatáu hynny ar hyn o bryd, cysylltwch i drafod ein cyfleoedd cymorth.

Sian Evans
Swyddog Cymdeithas y Cymod

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru